



FreeStyle Libre 2

Darganfyddwch y system FreeStyle Libre 2.

Canllaw byr i'ch helpu i gychwyn arni.

Mae darluniau at ddibenion enghreifftiol yn unig. Nid yw'n glaf nac yn ddata go iawn.

Mae'r ap FreeStyle LibreLink ond yn gydnaws â dyfeisiau symudol a systemau gweithredu penodol. Gwiriwch y wefan am ragor o wybodaeth am gydnawsedd dyfais cyn defnyddio'r ap. Mae'n bosib y bydd angen cofrestru â LibreView i ddefnyddio FreeStyle LibreLink.



SYSTEM FREESTYLE LIBRE 2

Dyma'r system FreeStyle Libre 2.



1

Dodwr


Yn cael ei ddefnyddio i osod y synhwyrdd.



2

Synhwyrdd Libre 2 Plus

Yn cael ei wisgo ar gefn y fraich uchaf.



3

Ap LibreLink

Defnyddiwch eich ffôn clyfar i weld eich data.¹ Mae ap LibreLink yn **ddi-dâl** i'w lawrlwytho.²

Ffordd chwyldroadol i wirio'ch lefelau siwgr a gweld i ble maent yn mynd.



Darlleniadau siwgr amser real

Gweld eich gwerthoedd siwgr ar eich ffôn clyfar¹, yn diweddarau'n awtomatig³ bob munud.



Hawdd ei ddefnyddio

Yn ddi-boen i'w osod ac yn gyfforddus⁴ i'w wisgo am hyd at 15 diwrnod.



Ffarwél i bigiadau bys⁵

Ffarwél i bigiadau bys⁵ gyda hyd at 15 diwrnod o fonitro glwcos parhaus.



Rhybuddion glwcos dewisol

Arhoswch gam ar y blaen gyda rhybuddion munud-i-funud y gellir eu haddasu⁶.

Mae darluniau at ddibenion enghreifftiol yn unig. Nid yw'n ddata cleifion go iawn.

1. Mae'r ap FreeStyle LibreLink ond yn gydnaws â dyfeisiau symudol a systemau gweithredu penodol. Gwiriwch y wefan am ragor o wybodaeth am gydnawsedd dyfais cyn defnyddio'r ap. Mae'n bosib y bydd angen cofrestru â LibreView i ddefnyddio FreeStyle LibreLink. 2. Er mwyn lawrlwytho ap FreeStyle LibreLink a rhannu data glwcos, mae angen cysylltiad rhyngrwyd diwifr neu gysylltiad data symudol. 3. Dim ond pan fydd eich ffôn clyfar a'r synhwyrdd wedi cysylltu ac o fewn cyrraedd y caiff darlleniadau glwcos eu dangos yn awtomatig yn yr ap FreeStyle LibreLink. 4. Haak, T. *Diabetes Ther* (2017): *Diabetes Ther* (2017): <https://doi.org/10.1007/s13300-016-0223-6>. 5. Bydd angen pigiadau bys os nad yw darlleniadau glwcos a rhybuddion yn cyfateb i symptomau a disgwyliadau. 6. Dim ond pan fydd rhybuddion wedi'u troi ymlaen, ac mae'r synhwyrdd o fewn 6 metr (20 troedfedd) heb rwstr i'r ddyfais ddarllen y bydd hysbysiadau'n cael eu derbyn.

SYSTEM FREESTYLE LIBRE 2

Tri cham i osod y synhwyrdd a chadw eich synhwyrdd yn ei le.

1



Golchi, glanhau a sychu

Dewiswch safle ar gefn eich braich uchaf sy'n aros yn wastad yn ystod gweithgaredd arferol. Glanhewch y croen gyda **sebon di-lleithio, heb arogl** a dŵr. Defnyddiwch weip alcohol i lanhau'r croen a'i **adael i aer sychu** cyn parhau.

2



Paratoi'r dodwr

Dadsgriwch y cap o ddodwr y synhwyrdd. **Aliniwch y marc tywyll** ar ddodwr y synhwyrdd â'r marc tywyll ar becyn y synhwyrdd. **Pwyswch i lawr yn gadarn** ac yna chodi. **Nodyn:** PEIDIWCH â rhoi'r cap ar y dodwr yn ôl, gan y gallai niweidio ffilament y synhwyrdd.

3



Gosod

Gosodwch y synhwyrdd ar gefn eich braich uchaf trwy bwyso'n gadarn.

Gwrandewch am y clic. Arhoswch ychydig eiliadau a thynnwch yn ôl yn araf, gan adael y synhwyrdd ar y croen. Mae mor hawdd â hynny!



Cymerwch ofal

Byddwch yn ofalus i beidio â dal eich synhwyrdd ar ddrws, drws car, gwregys diogelwch neu ymylon dodrefn.



Patiwch yn sych

Ar ôl cawod neu nofio, byddwch yn ofalus iawn wrth sychu i osgoi dal eich synhwyrdd neu ei dynnu i ffwrdd.



Chwaraeon cyswllt ac ymarfer corff dwys

Gwnewch yn siŵr eich bod yn dewis safle ar gefn eich braich uchaf a fydd yn lleihau'r siawns o fwrw'r synhwyrdd i ffwrdd.



Arafwch

Wrth wisgo neu dynnu'ch dillad, byddwch yn ofalus nad ydych yn dal eich dillad isaf ar y synhwyrdd.



Gwisgwch i lwyddo

Ceisiwch roi lle i'ch synhwyrdd anadlu drwy wisgo dillad llac a deunydd ysgafn.



Dwylo i ffwrdd

Ceisiwch beidio â chwarae, tynnu na chyffwrdd â'r synhwyrdd wrth ei wisgo.


Cyn gosod y synhwyrdd:

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn dewis safle gosod wedi'i gymeradwyo – cefn eich braich uchaf.
- Peidiwch â defnyddio eli neu hufen corff lle byddwch chi'n rhoi'r synhwyrdd, oherwydd gallant adael gweddillion olewog ar eich croen.
- Eiliwch unrhyw wallt braich gormodol, oherwydd gall gael ei ddal rhwng glud y synhwyrdd a'ch croen.

Deall eich mesuriadau glwcos.

Pam mae darlleniadau synhwyrdd Libre 2 Plus weithiau'n wahanol i brawf glwcos gwaed pigiad bys?

Pan fyddwch yn gosod y synhwyrdd Libre 2 Plus i gefn eich braich uchaf, mae ffilament tenau yn cael ei osod o dan y croen. Nid yw'n cyrraedd y llif gwaed, ond yn lle hynny mae'n mesur newidiadau yn y glwcos ychydig islaw arwyneb y croen yn yr ardal o amgylch y celloedd, o'r enw hylif gwagleol. Efallai na fydd darlleniadau glwcos synhwyrdd a glwcos yn y gwaed a gymerir ar yr un pryd bob amser yn cyfateb oherwydd bod synhwyrdd yn mesur glwcos hylif gwagleol, nid glwcos yn y gwaed.¹



1. Tarini, C. "The Technology of Glucose Sensors." Yn *Glucose Sensor Use in Children and Adolescents*, tt. 7-12. Springer, Cham, 2020.

SYSTEM FREESTYLE LIBRE 2

Gweld eich data glwcos.

Mae'r ap LibreLink¹ wedi'i ddylunio i dderbyn darlenniadau siwgr awtomatig² pob munud o'r synhwyrdd Libre 2 Plus, ond gallwch sganio ar unrhyw adeg³ o hyd, hyd yn oed os byddwch yn colli signal. Gall sgan cyflym lenwi hyd at 8 awr o ddata coll, felly rydych yn cael darlun llawn o'ch tueddiadau a phatrymau glwcos.



Mae darluniau at ddibenion enghreifftiol yn unig. Nid yw'n ddata cleifion go iawn.

1. Mae'r ap FreeStyle LibreLink ond yn gydnaws â dyfeisiau symudol a systemau gweithredu penodol. Gwiriwch y wefan am ragor o wybodaeth am gydnawsedd dyfais cyn defnyddio'r ap. Mae'n bosib y bydd angen cofrestru â LibreView i ddefnyddio FreeStyle LibreLink. 2. Dim ond pan fydd eich ffôn clyfar a'r synhwyrdd wedi cysylltu ac o fewn cyrraedd y caiff darlenniadau glwcos eu dangos yn awtomatig yn yr ap FreeStyle LibreLink. 3. Mae angen cynhesu am 60 munud wrth osod y synhwyrdd.

SYSTEM FREESTYLE LIBRE 2

Mwy o Amser mewn Amrediad, gwell reolaeth glwcos.

Mae'r system FreeStyle Libre 2 yn cyfrifo'r canran o'r amser rydych chi'n ei dreulio mewn, uwchlaw, ac islaw'r amrediad targed yn awtomatig. Amser mewn Amrediad yw'r canran o'r amser y mae eich lefelau glwcos yn yr amrediad targed.



Gall pob cynnydd o 10% mewn Amser mewn Amrediad **ostwng HbA1c gan 0.8%**¹

HbA1c yw eich glwcos cyfartalog dros y 2-3 mis diwethaf.




Mae pob awr ychwanegol mewn amrediad yn cael **effaith gadarnhaol ar eich rheolaeth glwcos**²



Gall treulio mwy o Amser mewn Amrediad **leihau cymhlethdodau iechyd hirdymor**³



Mae canllawiau'n argymhell treulio **o leiaf 70% o'ch Amser mewn Amrediad (3.9–10.0 mmol/L)**^{2,4}



Uwchlaw'r amrediad targed
(>10.0 mmol/L)

Amrediad glwcos targed
(3.9–10.0 mmol/L)

Islaw yr amrediad targed
(<3.9 mmol/L)

Mae darluniau at ddibenion enghreifftiol yn unig. Nid yw'n ddata cleifion go iawn.


HbA1c=haemoglobin glyciedig.

1. Vigersky, RA. *Diabetes Technol Ther* (2019): <https://doi.org/10.1089/dia.2018.0310>. 2. Battelino, T. *Diabetes Care* (2019): <https://doi.org/10.2337/dci19-0028>. 3. Beck, RW. *Diabetes Care* (2019): <https://doi.org/10.2337/dci18-1444>.

Lawrlwythwch heddiw.



Sganiwch y cod QR i lawrlwytho



Gweld data amser real unrhyw bryd,¹
unrhyw le² gyda'r ap LibreLink.³

Mae data sy'n cael ei gipio gan yr ap LibreLink yn cael ei uwchlwytho yn ddiwifr ac yn awtomatig⁴ i LibreView.⁵



Ffordd hawdd i weld eich data
glwcos ar-lein.

Mae LibreView⁵ yn eich caniatáu i rannu data gyda'ch
gweithiwr gofal iechyd proffesiynol pan fyddwch yn
cysylltu â'u Practis LibreView.



Mae darluniau at ddibenion enghreifftiol yn unig. Nid yw'n ddata cleifion go iawn.

1. Mae angen cynnod cynhesu o 60 munud wrth osod y synhwyrdd. **2.** Mae'r synhwyrdd yn gallu gwrthsefyll dŵr hyd at 1 metr (3 troedfedd) o ddŵr. Peidiwch â'i drochi am fwy na 30 munud. Peidiwch â'i ddefnyddio dros 10,000 troedfedd. **3.** Mae'r ap FreeStyle LibreLink ond yn gydnaws â dyfeisiau symudol a systemau gweithredu penodol. Gwiriwch y wefan am ragor o wybodaeth am gydnawsedd dyfais cyn defnyddio'r ap. Mae'n bosib y bydd angen cofrestru â LibreView i ddefnyddio FreeStyle LibreLink. **4.** Mae angen cofrestru gyda LibreView i rannu data glwcos. Mae angen cysylltiad rhyngwryd diwifr neu ddata symudol i uwchlwytho i LibreView yn awtomatig. **5.** Mae'r feddalwedd rheoli data LibreView wedi'i bwriadu ar gyfer defnydd gan gleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i gynorthwyo pobl sydd â diabetes a'u gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i adolygu, dadansoddi a gwerthuso data dyfais glwcos hanesyddol i gefnogi rheolaeth diabetes effeithiol. Nid yw'r feddalwedd LibreView wedi'i bwriadu i ddarparu penderfyniadau triniaeth nac ei defnyddio yn lle cynyngor gofal iechyd proffesiynol.



FreeStyle **Libre 2**

Rydym ni yma i helpu.

I gael rhagor o wybodaeth ar y system FreeStyle Libre 2, ewch i'n gwefan isod am adnoddau defnyddiol.

Dysgwch fwy yn **FreeStyle.Abbott**

Neu, gallwch ein ffonio ar:

0800 170 1177

Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8:00yb a 8:00yh
Dydd Sadwrn, Dydd Sul a gwyliau banc 9:00yb i 5:00yp.

Os bydd y synhwyrdd yn disgyn i ffwrdd neu os byddwch yn gweld negeseuon gwall, gallwch ddefnyddio'n ffurflen gymorth ar-lein trwy sganio yma.



Mae darluniau at ddibenion enghreifftiol yn unig. Nid yn glaf go iawn.
© 2026 Abbott. Cedwir Pob Hawl. Mae Libre, y logo glöyn byw, siâp a golwg y synhwyrdd, y lliw melyn, a nodau a/neu ddyluniadau cysylltiedig yn eiddo deallusol grŵp o gwmnïau Abbott mewn amrywiol tirogaethau. Mae nodau eraill yn eiddo i'w perchnogion priodol. ADC-2650753 v3.0 07/26.


Abbott